# Cofnodion Cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid 26ain Mehefin 2025

Rhoddwyd gair o groeso gan y Cadeirydd Emma Chappell
**Presennol**

Y Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Gareth Griffiths, Gareth Hughes a Lowri James

**Datgan Buddiant**

Dim

**Cais Clwb Rygbi Caernarfon**

Nodwyd fod hwn yn gais anghyffredin. Y rheswm dros y cais yw diffyg cyllid gan URC. Eisoes rydym yn ymwybodol yn dilyn llythyr a chyflwyniad gan swyddogion o'r clwb. Nodwyd fod y cyflwyniad wedi rhoi rheswm digonol o'r Gwaith gwych sydd yn cael ei wneud gydag ieuenctid yr ardal nid yn unig yn y clwb, ond gan y gweithiwr sydd yn mynychu'r Ysgolion Uwchradd I gynnal sesiynau Rygbi. Gan fod hwn yn rhodd anghyffredin, penderfynwyd cyfrannu £1000 allan o'r cyllid prosiect cymunedol.

**Cais Pêl droed ac Eisteddfod Yr Urdd Ysgol Brynrefail**

Nodwyd ein bod eisoes wedi ymateb i'r cais am gyfraniad i gêm pêl droed, gan nodi, y buasem yn gallu ariannu sawl peth o'r fath, ac yn amlwg, nid oes gan y Cyngor bot diwaelod. Penderfynwyd cyfrannu £200 tuag at drefniadau a chostau teithio'r Ysgol I fynychu eisteddfod yr Urdd ym Mhort Talbot.

**Cais Grant o £6500 Cynghorau Cymuned**

Nododd Gareth Griffiths ei od dal yn chwilio am brisiau, ac y bydd yn delio gyda'r cais cyn y dyddiad cau. Mae hi yn anodd gan fod gennym 6 pentref i geisio gwneud a hynny ond yn gadael rhyw £1000 i bob pentref.

**Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd y bod yn rhaid edrych ar ambell bolisi, a phenderfynwyd cyfarfod yn yr Hydref, pryd bydd trafodaethau cyllido flwyddyn 26/27 yn cychwyn